



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Byw yn Gymraeg – Gweithio yn Gymraeg- Live in Welsh – Work in Welsh

Ble alla' i siarad Cymraeg?

Mae'n braf gallu defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Mae defnyddio geiriau fel 'Croeso', 'Sut wyt ti?' neu 'Diolch' yn ffyrdd hawdd o ddechrau defnyddio'r Gymraeg gyda phobl eraill.

Yng Nghymru galli di siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg yn y gwaith, neu yn unrhyw le arall. Gallwn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr, gyda theulu, gyda ffrindiau ac wrth gysylltu â gwasanaethau cyhoeddus. Mae mwy a mwy o fusnesau ac elusennau hefyd yn manteisio ar y **Cynnig Cymraeg**.

Where can I speak Welsh?

It's nice to be able to use the Welsh language every day. Using words like 'Croeso', 'Sut wyt ti?' or 'Diolch' are easy ways to start using Welsh with other people.

In Wales you can speak and write in Welsh at work, or anywhere else. We can speak Welsh with colleagues, with family, with friends and when contacting public services. More and more businesses and charities are also taking advantage of the **Cynnig Cymraeg**.

Cymraeg

Sut alla' i ddangos fy mod i yn gallu siarad Cymraeg yn y gwaith?

Ry'n ni eisiau i gyflogwyr helpu ac annog eraill i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n bwysig nad oes neb yn dioddef os ydyn nhw eisiau defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith nac yn unrhyw le arall. Ni ddylai neb dy rwystro rhag medru defnyddio'r Gymraeg. Cei di **gysylltu â ni** os oes unrhyw broblem.

Fe allai di wisgo bathodyn **laith Gwaith** i ddangos dy fod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn dy waith ac y gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda ti.

Dyma beth oedd gan David, sy'n siaradwr Cymraeg newydd, i'w ddweud am y bathodyn laith Gwaith: "Dwi'n hapus iawn pan dwi'n siopa a dwi'n gweld rhywun yn gwisgo'r bathodyn oren Cymraeg achos dwi'n gwybod 'mod i'n gallu siarad yr iaith gyda rhywun arall."

Galli di archebu dy fathodyn drwy gysylltu â ni:

- ✉ post@cyg-wlc.cymru
- ☎ 0345 6033 221
- 🌐 comisiynyddygydraeg.cymru

Cymraeg

Sut alla' i ddysgu Cymraeg i'w defnyddio yn y gwaith?

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gael yn ystod y dydd a gyda'r nos, mewn dosbarthiadau wyneb yn wyneb a rhai rhithiol. Gallwch holi eich cyflogwr am y cynllun **Cymraeg Gwaith**, sy'n cynnig hyfforddiant amrywiol, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr i gyflogwyr. Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg hefyd ar gael mewn cymunedau. Am fwy o wybodaeth, ewch i **dysgucymraeg.cymru**.



Cefnogaeth bellach wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith:

Gall undebau llafur eich helpu gyda siarad Cymraeg yn y gwaith:

- Os yw hi'n anodd i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith gall eich cynrychiolydd undeb eich helpu
- Gall undebau, gyda help TUC Cymru, hefyd drefnu ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn y gweithle
- Efallai y gallwch ddysgu Cymraeg drwy ddefnyddio Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF)

✉ Cysylltwch â **wtuc@tuc.org.uk** am fwy o wybodaeth.

Wales
TUC
Cymru

How can I show that i can speak Welsh at work?

We want employers to help and encourage others to use the Welsh language. It is important that no one suffers if they want to use Welsh at work or anywhere else. No one should prevent you from being able to use the Welsh language. You can **contact us** if there is any problem.

You can wear a **laith Gwaith** badge to show that you can use Welsh at work and that other people can use Welsh with you.

This is what David, who is a new Welsh speaker, had to say about the laith Gwaith badge: "I'm very happy when I'm shopping and I see someone wearing the orange Welsh badge because I know I can speak the language with someone else."

You can order your badge by contacting us:

- ✉ post@cyg-wlc.cymru
- ☎ 0345 6033 221
- 🌐 welshlanguagecommissioner.wales

Cymraeg

How can I learn Welsh to use at work?

Learn Welsh courses are available during the daytime and evening, in both virtual and face to face classes. Ask your employer about the **Work Welsh** scheme, which offers varied, flexible, fully-funded training for employers. You can also follow a Learn Welsh course in your community. For more information, visit **learnwelsh.cymru**.



Further support when using Welsh in the workplace:

Trade unions can support you with speaking Welsh at work:

- If you experience problems when using Welsh at work your union rep can help
- Unions, with support from the Wales TUC, can also run campaigns to raise the profile of the Welsh language in the workplace
- You may be able to learn Welsh using the Wales Union Learning Fund (WULF)

✉ Contact **wtuc@tuc.org.uk** for more information.

Wales
TUC
Cymru